| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Mai 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Protocol Cyfryngau Cymdeithasol** |

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â drafft o Brotocol Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Aelodau a gweithwyr y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau ar y Pwyllgor Safonau i ystyried cynnwys y drafft cyfredol o'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol a rhoi eu sylwadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau yn ystyried y drafft o'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol sydd yn Atodiad 1 i'r adroddiad ac yn rhoi sylwadau am y drafft.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ym mhob agwedd ar fywyd wedi dod yn ffordd dderbyniol o gyfathrebu ac ymgysylltu.

4.2 Mae awydd cynyddol mewn llawer rhan o gymdeithas i gael gafael ar wybodaeth ac i gyfathrebu drwy'r gwahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol fel Twitter, Facebook, etc.

4.3 Mae cyfryngau cymdeithasol yn derm am ffyrdd rhwydd o gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngrwyd. Defnyddir y term fel arfer i ddisgrifio'r ffordd y mae unigolion, cwmnïau a chyrff eraill yn rhannu gwybodaeth ac yn cychwyn trafodaeth ar-lein.

4.4 Am ei bod yn rhwydd dosbarthu gwybodaeth fel hyn ac am fod nifer cynyddol o bobl yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gafael ar wybodaeth, bydd y ffordd y mae Cynghorau a Chynghorwyr yn rhyngweithio â'r cyhoedd yn newid.

4.5 Er bod nifer o fanteision ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae peryglon posibl hefyd os na chymerir gofal. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyfeirio droeon at y defnydd o gyfryngau cymdeithasol

yn ei ganllawiau ar y Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn atgoffa aelodau bod y Cod Ymddygiad yn gymwys i'w gweithgareddau ar-lein yn yr un ffordd ag y mae'n gymwys i agweddau eraill ar eu rôl.

4.6 Mae nifer o awdurdodau wedi rhoi canllawiau i Aelodau ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Rhoddwyd gwahanol fathau o ddogfennau sy'n amrywio o rai sy'n ymhelaethu ar y Cod Ymddygiad a chyngor yr Ombwdsmon i ddogfennau mwy cynhwysfawr sy'n rhoi gwybod am y gwahanol ffyrdd o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn cynnwys adrannau am y materion a all fod yn gysylltiedig ag ymddygiad.

4.7 Mae posibilrwydd o gael mwy o ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol os bydd y Cyngor yn mabwysiadu polisi ar gyfer gweddarlledu ei gyfarfodydd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y defnydd o weddarlledu yn cyrraedd rhannau o'r gymuned sy'n dibynnu ar y rhyngrwyd i gael gwybodaeth ac a allai ddymuno cyfathrebu â'r Cyngor a Chynghorwyr drwy gyfryngau cymdeithasol.

4.8 Lluniwyd canllawiau o'r blaen ar gyfer Aelodau etholedig yn 2010 ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae copi o'r Canllawiau hyn yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. Ym Mehefin 2013 cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a phenderfynodd o blaid llunio protocol i'w ystyried gan y Pwyllgor a fyddai'n cynnwys Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd wedi'u cylchredeg o'r blaen ac sydd yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn. Yn fuan ar ôl gwneud y penderfyniad hwn, roedd gwaith ar ddiogelu mewn rhan arall o'r Cyngor wedi dangos bod angen protocol ar gyfer staff ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithas o safbwynt diogelu. Barnwyd hefyd fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn arf cyfathrebu pwysig i'r Cyngor ac y dylid datblygu protocol i roi arweiniad i aelodau staff ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Gan fod y tair elfen hyn yn cael eu datblygu ar wahân i'w gilydd, cytunwyd y dylid mabwysiadu un Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, os byddai modd, gyda'r posibilrwydd o gynnwys atodiadau a fyddai'n berthnasol i wahanol ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Aelodau etholedig.

4.9 Mae'r drafft o'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol sydd yn Atodiad 1 wedi cael ei ddatblygu gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol gyda chyfraniad gan swyddogion sy'n ymwneud â diogelu yn ogystal â materion sy'n gysylltiedig â safonau.

4.10 Bydd Aelodau yn nodi bod y Polisi'n ddogfen Polisi Cyffredinol sy'n cynnig cyngor cyffredinol. Mae atodiadau i'r ddogfen yn cynnig cyngor penodol ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn gwahanol amgylchiadau ac, yn benodol, yn Atodiad B, mae canllawiau sydd wedi'u llunio'n bwrpasol ar gyfer Aelodau etholedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Drwy wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol, bydd y Cyngor yn gallu cyfleu ei flaenoriaethau i gynulleidfa ehangach a bydd hyn yn cyfrannu at y flaenoriaeth o foderneiddio'r Cyngor.

**6. Beth fydd ei gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes costau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad?**

7.1 Nid oes angen gwneud Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghori a gafwyd â'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu ac eraill.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol amlwg yn codi o'r adroddiad.

**10. Pa risgiau sy'n codi ac a oes rhywbeth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risgiau posibl ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan swyddogion ac Aelodau, ac mae'r Polisi ei hun yn tynnu sylw at nifer ohonynt. Mae cyngor a chyfarwyddyd ymarferol yn y Polisi a'r atodiadau iddo ac, os dilynir y rhain, gellir lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Y risg i'r Cyngor o beidio â defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn briodol ac effeithlon yw na fydd yn cyfleu negeseuon allweddol i rai aelodau o'r gymuned sy'n cael y rhan fwyaf o'u gwybodaeth ar-lein.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad.